# Cyngor ar wneud sylwadau ar neu wrthwynebiadau i'r Gorchymyn Dynodi arfaethedig

## Sylwadau

Gall unrhyw berson neu sefydliad sy'n dymuno gwneud sylwadau ynghylch y Gorchymyn Dynodi arfaethedig wneud hynny ar-lein neu yn ysgrifenedig. Gall hyn gynnwys cefnogaeth neu gefnogaeth gymwys i Barc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr.

## Gwrthwynebiadau

Gall unrhyw berson neu sefydliad wrthwynebu'r Gorchymyn Dynodi arfaethedig yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen bapur hon neu'r fersiwn ar-lein.

Er mwyn cynorthwyo gyda phrosesu sylwadau a gwrthwynebiadau, mae'n bwysig bod gwrthwynebwyr yn rhoi' rrheswm (rhesymau) dros y gwrthwynebiad yn glir.

Rhaid i wrthwynebiadau i'r Gorchymyn ymwneud â'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer dynodi Parciau Cenedlaethol.

Gellir crynhoi'r meini prawf a nodir yn y gyfraith fel a ganlyn:

- darn helaeth o gefn gwlad
- harddwch naturiol
- cyfleoedd y mae'n eu cynnig ar gyfer hamdden awyr agored

## Cyflwyno gwrthwynebiadau, cynrychiolaethau a sylwadau

Rhaid cyflwyno a derbyn cynrychiolaethau, gwrthwynebiadau neu sylwadau yn briodol erbyn dydd Llun 8 Rhagfyr 2025 fan bellaf. Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad statudol drwy:

- Cwblhau a chyflwyno'r ffurflen ymateb drwy wefan y prosiect.
- Cwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb hon i Freepost Plus RTJJ-AAKE HKKU, Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW

Lle bynnag y bo modd, dylid defnyddio'r ffurflen hon, bydd yn helpu effeithlonrwydd prosesu cynrychiolaethau a gwrthwynebiadau